Chwaraeon

Mae tymor hoci a pêl-droed wedi cychwyn unwaith eto, ac mae'r brwdfrydedd yn heintus. Dyma adroddiad Rhys Morgan (blwyddyn 6) o gystadleuaeth cwpan RAFA:

Y Cwpan RAFA

Bore Sadwrn y 26ain o Fedi roedd cystadleuaeth y Cwpan RAFA yn cael ei gynnal ym Mhlas Crug. Roedd y trefnydd, Mr Lloyd wedi rhoi timau'r ysgol mewn grwpiau gwahanol.

Roedd Mr John, ein prifathro, wedi rhoi dau dîm mewn yn y gystadleuaeth, sef tîm cyntaf Penrhyn-coch a Bois y Fro.

Roeddwn i yn chwarae i dîm cyntaf Penrhyn-coch, dyma'r grŵp yr oedden ni mewn -

Plas-crug
Waun Unedig
Dolffiniaid
Bois y Cwm

Ennillon ni Plas-crug 1-0, mi wnes i sgorio yr un gôl, wedyn aethom ymlaen i ennill y gêm yn erbyn y Dolffiniaid 2-0, Gruffudd Lewis a fi sgoriodd.